------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 30 Mehefin 2015**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda

(276)v4

**Cwestiwn Brys**

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Yn dilyn y sylwadau cychwynnol a wnaeth y Prif Weinidog ar y digwddiadau trychinebus yn Nhiwnisia, a wnaiff ddatganiad llawn ar ei ddealltwriaeth o'r sefyllfa bresennol? EAQ(4)2387(FM)

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd: Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020 - y wybodaeth ddiweddaraf (30 munud)**

**4 Datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus: Y Ddeddf Trais yn erbyn**

**Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol - flwyddyn ers ei chyflwyno (30 munud)**

**5 Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Ymateb Llywodraeth Cymru i Adolygiad Donaldson (30 munud)**

**6 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Metro (30 munud)**

**Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod y ddwy eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (15 mins)**

**7 Rheoliadau Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (Swyddog Awdurdodedig) (Cymru) 2015**

**NDM5795 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (Swyddog Awdurdodedig) (Cymru) 2015 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Mehefin 2015.

**Dogfennau Ategol**
Rheoliadau Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (Swyddog Awdurdodedig) (Cymru) 2015
Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol - *Dim pwyntiau adrodd*

**8 Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015**

**NDM5796 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Mehefin 2015.

**Dogfennau Ategol**
Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015
Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol – *Dim pwyntiau adrodd*

**9 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd ar gyfer Cam Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) 2015 (15 munud)**

**NDM5797 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) 2015 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Mehefin 2015.

**Dogfennau Ategol**
Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) 2015
Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol – *Dim pwyntiau adrodd*

**10 Dadl ar Adroddiad Gweinidogion Cymru ar gydymffurfiaeth â'r ddyletswydd o dan adran 1 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 (60 munud)**

**NDM5798 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad Gweinidogion Cymru ar Gydymffurfiaeth â'r ddyletswydd o dan adran 1 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

Gosodwyd copi o'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Mehefin 2015.

Mae'r Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 ar gael yma:
http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/2/contents/enacted/welsh.

**Dogfen Ategol**
Adroddiad Gweinidogion Cymru ar Gydymffurfiaeth â'r ddyletswydd o dan adran 1 o

Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**1. Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud mwy i hyrwyddo Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i'r cyhoedd yn gyffredinol.

**11 Cyfnod pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 1 Gorffennaf 2015

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 25 Mehefin 2015 i'w hateb ar 30 Mehefin 2015

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1. Elin Jones (Ceredigion):** Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer hyrwyddo twristiaeth yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)2376(FM)**W**

**2. Alun Ffred Jones (Arfon):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am strategaeth ganser Llywodraeth Cymru? OAQ(4)2370(FM)**W**

**3. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddenu llongau gwyliau i Gymru? OAQ(4)2377(FM)**W**

**4. Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fynediad i ofal cynradd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)2381(FM)

**5. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod ei rhaglenni tlodi plant yn ymgysylltu'n llawn â rhieni? OAQ(4)2371(FM)

**6. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed yng ngogledd Cymru? OAQ(4)2378(FM)

**7. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol nodyn cyngor technegol 8? OAQ(4)2373(FM)

**8. Keith Davies (Llanelli):** A wnaiff y Prif Weinidog roi trosolwg o'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i amddiffyn a chefnogi treftadaeth leol? OAQ(4)2379(FM)**W**

**9. Christine Chapman (Cwm Cynon):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hyrwyddo'r cyflog byw? OAQ(4)2375(FM)

**10. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella gwasanaethau iechyd yn Sir Benfro? OAQ(4)2365(FM)

**11. Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer ad-drefnu llywodraeth leol? OAQ(4)2372(FM)

**12. Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth ar gyfer gwasanaethau sy'n darparu cyngor ar ddyled yng Nghymru? OAQ(4)2374(FM)

**13. Eluned Parrott (Canol De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyfleusterau Cymru ar gyfer cynnal digwyddiadau a chynadleddau mawr? OAQ(4)2369(FM)

**14. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi'r gymuned lluoedd arfog yng Nghymru? OAQ(4)2367(FM)

**15. Gwenda Thomas (Castell-nedd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am adfywio'r iaith Gymraeg? OAQ(4)2380(FM)**W**

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar dudalen y Cyfarfod Llawn**

**Dydd Mawrth 7 Gorffennaf 2015 a dydd Mercher 8 Gorffennaf 2015**
**Dydd Mawrth 14 Gorffennaf 2015 a dydd Mercher 15 Gorffennaf 2015**
**Dydd Mawrth 15 Medi 2015 a dydd Mercher 16 Medi 2015**

---

**Dydd Mawrth 7 Gorffennaf**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg: Band Eang Cyflym Iawn (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Y Diweddaraf ar Borthladdoedd (30 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth: Blwyddyn Antur 2016 (30 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd: Cynllun Taliad Sylfaenol y Polisi Amaethyddol Cyffredin (30 munud)
- Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod y canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân:
    - Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Cymru) (5 munud)
    - Rheoliadau Addysg Uwch (Symiau) (Cymru) (5 munud)
    - Rheoliadau Addysg Uwch (Dynodi Darparwyr Addysg Uwch) (Cymru) (5 munud)
- Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod y canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân:
    - Rheoliadau Gofal a Chymorth (Trefniadau Partneriaeth ar gyfer Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015 (10 munud)

    - Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Mentrau Cymdeithasol, Cydweithredol a Thrydydd Sector) (Cymru) 2015 (5 munud)

- Dadl ar egwyddorion cyffredinol y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru) (60 munud)
- Cynnig i gytuno ar y penderfyniad ariannol mewn perthynas â'r Bil Rhentu Cartrefi (Cymru) (5 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl Fer - William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Hofrennydd heddlu Dyfed-Powys: pam mae'r X99 yn darparu cefnogaeth hanfodol i ddiogelwch y cyhoedd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru (30 munud) - *gohiriwyd ers 24 Mehefin*

**Dydd Mercher 8 Gorffennaf**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)
- Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl fer - Mark Isherwood (Gogledd Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 14 Gorffennaf 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)

- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Cyflwyno'r Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) (60 munud)
- Dadl ar y Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2015-2016 (30 munud)
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwystra) (Cymru) 2015 (45 munud)
- Dadl ar egwyddorion cyffredinol y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) (60 munud)
- Cynnig i gytuno ar y penderfyniad ariannol mewn perthynas â'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) (5 munud)

**Dydd Mercher 15 Gorffennaf 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl ar yr Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol ar Gynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Cynulliad (60 munud)
- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Dadl Fer - Mike Hedges (Dwyrain Abertawe) (30 munud)

**Dydd Mawrth 15 Medi 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)

**Dydd Mercher 16 Medi 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth (45 munud)

- Cwestiynau i’r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Amser a neilltuwyd i’r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i’r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer (30 munud)